Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Hawdd ei Ddeall

# **Diogelu Plant yn GIG Cymru**

## Cylch Gorchwyl

**Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)** yn cynnal gwiriadau i sicrhau diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

**Geiriau Anodd**

Bydd **geiriau anodd** yn cael eu huwcholeuo yn las, a bydd disgrifiad mewn blwch o dan y frawddeg. Bydd yr holl eiriau anodd hefyd yn cael eu hesbonio ar dudalen 7.



## Beth yw'r adolygiad hwn?

Mae AGIC yn cynnal adolygiad o drefniadau **diogelu** plant ym Myrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru.



Mae **diogelu** yn golygu helpu i gadw oedolion a phlant yn ddiogel. Mae'n golygu amddiffyn pobl rhag niwed, camdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth wael.



Mae'r adolygiad yn ystyried sut mae gwasanaethau iechyd yn amddiffyn plant rhag niwed.



Mae'r adolygiad yn ystyried sut mae gwasanaethau iechyd yn ymateb i bryderon am staff sy'n gweithio gyda phlant.




Yr enw ar hyn yw **Adran 5** o Weithdrefnau Diogelu Cymru.




## Pam mae AGIC yn cynnal yr adolygiad hwn?

- I helpu i gadw plant yn ddiogel



- I ddod o hyd i enghreifftiau o bethau sy'n gweithio'n dda



- I ddod o hyd i ffyrdd y gall gwasanaethau iechyd wella



- I rannu gwersi ledled Cymru.

# Mae 3 cham i'r adolygiad:



**Cam un – Casglu tystiolaeth**

Mae **tystiolaeth** yn wybodaeth sy'n helpu AGIC i ddeall beth sy'n digwydd.



- Bydd gwasanaethau iechyd yn anfon gwybodaeth a dogfennau i AGIC



- Bydd AGIC yn edrych ar sut mae gwasanaethau iechyd yn cadw plant yn ddiogel, yn hyfforddi staff, yn cyflogi'r bobl gywir ac yn dysgu pan fydd pethau'n mynd yn anghywir



- Bydd AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwrando ar blant.



## Cam 2 - Adolygu tystiolaeth a chyfweliadau

- Bydd AGIC yn adolygu'r wybodaeth o wasanaethau iechyd



- Bydd AGIC yn cwrdd â gwasanaethau iechyd i siarad am y dystiolaeth



- Bydd AGIC yn tynnu sylw at bethau sy'n gweithio'n dda a ffyrdd y gall gwasanaethau wella.



## Cam 3 – Cyfweliadau dilynol

- Bydd AGIC yn siarad â rhai gwasanaethau iechyd ar ôl yr adolygiad



- Bydd y trafodaethau hyn yn ystyried sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, sut mae pryderon yn cael eu codi, a sut mae gwasanaethau'n gweithio gyda sefydliadau eraill



- Gall AGIC edrych ar gofnodion cyfarfodydd a dogfennau eraill.


# Beth fydd yn digwydd ar y diwedd?



- Bydd AGIC yn llunio adroddiad am yr hyn a welodd ledled Cymru




- Bydd yr adroddiad yn esbonio'r hyn a welodd AGIC, beth oedd yn gweithio'n dda, a lle y gallai fod angen gwelliannau ledled Cymru



- Gall rhai gwasanaethau iechyd hefyd gael llythyrau adborth



- Caiff hyn ei rannu â sefydliadau arolygu eraill i gefnogi adolygiad ehangach.

# Sut y bydd y wybodaeth yn cael ei hamddiffyn?



- Bydd gwybodaeth yn cael ei thrin yn ddiogel



- Caiff **cyfreithiau diogelu data** eu dilyn

Mae **cyfreithiau diogelu** data yn rheolau i gadw gwybodaeth bersonol pobl yn ddiogel ac yn breifat.



- Bydd adroddiadau'n cael eu llunio'n ofalus er mwyn osgoi adnabod unigolion.

# Geiriau Anodd

**Geiriau Anodd**

Efallai y bydd rhai geiriau yn y ddogfen hon yn anodd i'w deall. Mae'r dudalen hon yn egluro beth mae'r geiriau hynny'n ei olygu mewn ffordd syml.

## Diogelu



Mae **diogelu** yn golygu helpu i gadw oedolion a phlant yn ddiogel. Mae'n golygu amddiffyn pobl rhag niwed, camdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth wael.

## Tystiolaeth



Mae **tystiolaeth** yn wybodaeth sy'n helpu AGIC i ddeall beth sy'n digwydd.

## Cyfreithiau diogelu data



Mae **cyfreithiau diogelu data** yn rheolau i gadw gwybodaeth bersonol pobl yn ddiogel ac yn breifat.

# Sut i gysylltu ag AGIC

**Drwy'r post**

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

**Drwy e-bost**

agic@llyw.cymru

**Dros y ffôn**

0300 062 8163